| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad:** | 12 Mehefin 2025 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Diweddariad Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Diweddaru'r Pwyllgor ar waith llywodraethu a chefnogi y gwasanaeth. |
| **Awdur:** | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

## Cefndir

1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y materion llywodraethiant democrataidd a drafodwyd yn y cyfarfod ar 6 Chwefror ac ar faterion eraill cysylltiedig.

## Cynllun gwella

2. Lluniwyd cynllun gwella i ddelio gyda materion democrataidd a gododd y Pwyllgor Safonau wrth gynnal adolygiad o gofrestrau aelodau yn 2024. Rhannwyd copi o'r cynllun gwella gyda'r Pwyllgor y llynedd a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd yn y Pwyllgor ym mis Chwefror.

3. Adroddwyd bryd hynny bod 15 o'r 20 gweithred wedi eu cwblhau a bod 2 arall yn rhai parhaus. Dyma ddiweddariad ar y 3 gweithred a oedd yn weddill:

   i) "*Galluogi aelodau i gwblhau y gofrestr diddordebau sefydlog ar ochr Gymraeg ModGov os ydynt yn dymuno*" – rydym wedi gwneud cais i'r cwmni meddalwedd am y datblygiad yma. Ni yw'r unig awdurdod sydd yn defnyddio ModGov sydd wedi gwneud cais o'r fath, felly ni fydd yn cael ei drin fel blaenoriaeth. Deallwn nad yw awdurdodau eraill cyfagos yn caniatáu mynediad i aelodau yn uniongyrchol ac mai swyddogion sy'n mewnbynnu gwybodaeth ar eu rhan. Yn y cyfamser bydd ein swyddogion yn parhau i gynnig mewnbynnu gwybodaeth ar ran aelodau er mwyn lliniaru unrhyw effaith posibl.

   ii) "*Galluogi aelodau i gwblhau eu ffurflen cofrestr datgan diddordeb mewn cyfarfodydd ar-lein*" – mae modd i aelodau gwblhau'r ffurflen ar bapur neu'n electronig a'i ddychwelyd i glerc y pwyllgor. Caiff aelodau eu hatgoffa o'r angen i gwblhau ffurflen gan gadeirydd pob pwyllgor ar ddechrau cyfarfodydd

ac mae’r ymateb wedi bod yn gadarnhaol eleni gyda ffurflenni yn cael eu dychwelyd ar amser.

iii) “*Cysylltu gwe-ddarllediadau efo eitemau agenda*” – wedi ei gwblhau.

**Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig 24/25**

4. Rhannwyd templed a chyfarwyddiadau gyda aelodau ar gyfer cwblhau eu hadroddiad blynyddol ar 24 Mawrth ac mae negeseuon atgoffa rheolaidd wedi eu rhannu ers hynny.  Gofynnwyd am yr adroddiadau yn wreiddiol erbyn mis Mai ac rydym wedi caniatáu estyniad tan 6 Mehefin.

5. Hyd yma mae 22 o adroddiadau wedi eu derbyn, sy’n cymharu gyda 26 a dderbyniwyd ar gyfer 23/24. Mae’n debygol bydd un neu ddau o adroddiadau ychwanegol yn ein cyrraedd dros y dyddiau nesaf. Byddwn yn cyhoeddi’r adroddiadau ar wefan y Cyngor yn y drefn arferol erbyn diwedd Mehefin.

**Cofrestr datgan diddordeb**

6. Caiff aelodau eu hatgoffa o’r angen i ddiweddaru eu cofrestrau o fewn 28 diwrnod gwaith i unrhyw newid mewn amgylchiadau.

7. Mae’n ofynnol hefyd i aelodau gwblhau’r gofrestr a ffurflen ychwanegol yn cynnwys manylion teulu agos at ddibenion cyfrifon y Cyngor. Mae’r gwaith hynny yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a mwyafrif helaeth yr aelodau wedi cwblhau’r broses.

**Sgyrsiau datblygu blynyddol a chofnodion hyfforddiant**

8. Caiff diweddariadau chwarterol ar hyfforddiant aelodau eu hanfon at arweinyddion grŵp perthnasol.  Mae hynny’n fodd o fonitro presenoldeb mewn hyfforddiant, a hyfforddiant mandadol yn benodol. Bydd diweddariad chwarter 1 25/26 yn cael ei anfon yn ystod mis Gorffennaf.  Caiff gwybodaeth am bresenoldeb aelodau mewn pwyllgorau eu rhannu gyda arweinyddion yn chwarterol erbyn hyn hefyd.

9. Rhannwyd templed sgwrs flynyddol gyda arweinyddion grŵp yn ystod diwedd Chwefror.  Bwriad y templed oedd cynnig strwythur ar gyfer cynnal sgwrs datblygiad blynyddol gyda aelodau eu grwpiau.  Gofynnwyd i’r arweinyddion rannu unrhyw wybodaeth am ofynion hyfforddiant a oedd wedi codi o’r sgyrsiau fel bod modd eu cynnwys yng nghynllun datblygu aelodau ar gyfer 25/26. Cawsom wybodaeth gan ddau o’r arweinyddion.

**Argymhelliad**

10. Gofynnir i’r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.